
**Gwybodaeth i Gleifion**
**Hydrotherapi yng Nghanolfan Blant Serennu - Plentyn**

**Gwasanaeth Ffisiotherapi**

## Cyn eich apwyntiad



Peidiwch â mynychu os oes gennych unrhyw symptomau Covid-19, os ydych yn sâl neu os ydych wedi chwydu neu gael unrhyw ddolur rhydd yn ystod y 48 awr ddiwethaf.

Os oes angen defnyddio'r teclyn codi ar gyfer eich plentyn, gwnewch yn siŵr eich bod yn dod â sling ychwanegol yr ydych yn hapus i'w gwlychu, gan nad oes gennym unrhyw rai sbâr yn y ganolfan. Dewch â dŵr yfed i'ch plentyn os gwelwch yn dda. Fel arall, gellir ei brynu o'r caffi, os yw ar agor.

## Ar ddiwrnod eich apwyntiad

Bydd angen i chi gyrraedd Serennu tua 10 munud cyn amser eich apwyntiad er mwyn caniatáu amser i newid.

Ar ôl cyrraedd, ewch i'r dderbynfa ym mhrif fynedfa'r adeilad. Unwaith y byddwch wedi arwyddo i mewn, byddwch yn cael eich cyfeirio at y man aros ar y llawr gwaelod. Canwch y gloch wrth ymyl mynedfa'r pwll, fel ein bod yn gwybod eich bod wedi cyrraedd.

Cyn mynd i mewn i'r pwll, gofynnir i chi gael cawod heb ddillad, mae cawodydd preifat ar gael yn y ciwbiclau newid. Bydd angen clymu gwallt yn ôl wrth fynd i mewn i'r pwll.

*Rydym yn gwybod y gall plant ar adegau lyncu dŵr yn anfwriadol ac yna chwydu yn ystod eu sesiwn driniaeth. Dylid cyfarwyddo plant i BEIDIO â bwyta yn ystod yr awr cyn eu sesiwn hydrotherapi er mwyn lleihau'r siawns o chwydu cynnwys eu stumog i'r dŵr.*

## Pobl sy'n dod gyda'r plentn

Bydd angen i Riant neu Warcheidwad fod yn bresennol drwy gydol y sesiwn. Os yw'r person sy'n dod gyda'r plentyn hefyd yn mynd i mewn i'r pwll, bydd y ffisiotherapydd yn trafod yr hyn y cynghorir yn ei erbyn a'r rhagofalon mewn perthynas â hydrotherapi gyda chi, cyn mynd i mewn.

## Yn y pwll

Gallwch fynd i mewn i'r pwll gan ddefnyddio grisiau'r pwll (mynediad graddol gyda chanllaw) neu drwy ddefnyddio’r hoist uwchben neu'r hoist cadair. Bydd eich Ffisiotherapydd eisoes wedi trafod hyn gyda chi a'ch plentyn cyn yr atgyfeiriad ond efallai y byddwch hefyd yn cael trafodaeth bellach gyda'r Ffisiotherapydd yn Hydrotherapi, ynglŷn â'r dull mwyaf addas o gael mynediad i’r pwll.

Yn dilyn apwyntiad eich plentyn, byddwch yn cael gwybod am yr apwyntiad nesaf. Os yw'ch plentyn wedi gorffen ei floc triniaeth, bydd ei Ffisiotherapydd yn cael gwybod a bydd adolygiad tir sych yn cael ei drefnu ganddynt.

## Polisi presenoldeb

Os nad ydych yn mynychu'ch apwyntiad ac yn methu â rhoi gwybod i ni, bydd gweddill apwyntiadau hydrotherapi eich plentyn yn cael eu canslo, a bydd ei ffisiotherapydd yn cael ei hysbysu. Yna bydd eich ffisiotherapydd yn dilyn polisi presenoldeb y bwrdd iechyd ac efallai y bydd eich plentyn yn cael ei ryddhau o'r gwasanaeth. Os nad oes modd i chi fynychu eich apwyntiad, rhowch wybod i ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

## Beth i ddod gyda chi?

- Dillad nofio
- Tywel
- Gel cawod
- 2 sling teclyn codi (os oes angen)
- Diod (os yw'n briodol)

## Sut i ddod o hyd i ni

**Cyfeiriad:** Canolfan Blant Serennu, Cwrt Camlas, High Cross Casnewydd, NP10 9LY

**Cyswllt:** 01633 748 064 neu abb.paedsphysio@wales.nhs.uk

**Cyffordd 27 yr M4 –** Dilynwch y gylchfan tuag at High Cross a phasio gorsaf betrol Texaco/Asda a chymerwch y troad cyntaf i'r dde (arwydd gwyn) ac yna i'r dde eto i faes parcio Serennu. Gallwch barcio yn y slot parcio rhieni a phlant.

Edrychwn ymlaen at eich gweld yn fuan.

Tîm Ffisiotherapi Serennu

**Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/**
**This document is available in English**